monmouthshire
sir fynwy

# CYNGOR SIR FYNWY

# GOFOD MANWERTHU AR OSOD




## Gwahoddir cynigion o £800 y mis calendr (£185 yr wythnos)

| |
|---|
| **Uned 1, Tŷ Hanbury, Stryd Gymreig, Cas-gwent. NP16 5LL** |
| **Dyddiad Cau Bidiau: 17:00 dydd Iau 29 Mehefin 2017** |






# Cyfle Manwerthu Newydd Gwych yng Nghas-gwent

**Gofod llawr daear hyblyg - ar gael yn ei gyfanrwydd neu gyda photensial i'w rannu yn ddwy uned**

Arwynebedd Mewnol Crynswth (GIA) = Tua 63.2 m$^2$ (680 tr$^2$)

- Caniatâd cynllunio ar gyfer A1 Defnydd Manwerthu (ystyrir newid defnydd yn amodol ar gynllunio)
- Lleoliad o fewn yr ardal siopa ganolog yn agos at fanwerthwyr mawr a llai na 5 munud o'r M48
- Sefyllfa ardderchog gyda llawer o fasnach pasio

## Lleoliad a Safle

Mae Tŷ Hanbury ar Stryd Gymreig yng nghanol tref Cas-gwent. Mae Cas-gwent yn dref brysur ac egniol ar y Gororau gydag economi lleol ffyniannus. Yn gyrchfan dwristiaeth boblogaidd oherwydd ei chysylltiadau trafnidiaeth ardderchog a chastell ac yn agos at Ddyffryn Gwy ac Abaty Tyndyrn. Mae'r adeilad mewn safle da mewn ardal gadwraeth yn agos at brif faes parcio'r dref a chanolfannau manwerthu gyda llawer o ymwelwyr/masnach yn pasio. Mae manwerthwyr mawr fel Neuadd Fwyd M&S a Wilkinson's yn agos.

## Disgrifiad o'r Eiddo

Mae gan yr uned Arwynebedd Mewnol Crynswth o tua 63.2 m² (680 tr²). Mae'r uned yn hunangynwysedig gyda mynediad drwy flaen yr uned. Mae 3 panel gwydrog mawr o flaen y siop yn rhoi cyfleoedd ardderchog ar gyfer arddangosiad ffenestr. Mae'r arwynebedd llawr mewnol wedi'i rannu'n ddau ar hyn o bryd gyda phared ysgafn. Gellid symud hwn yn rhwydd neu gallai aros i ffurfio dwy uned ar wahân gan rannu cegin a chyfleusterau toiled.

## Dimensiynau Uned

Mesurir yn unol â Chod Ymarfer Mesur RICS (6ed Rhifyn)

Arwynebedd Crynswth Gwerthiant Siop = 55.1 m² (593 tr²)

Wyneb Siop/Lled = 8.0 m (26.25 tr.)

Dyfnder Siop = 7.9 m (26.0 tr. uchaf)

Cegin = 8.1 m² (87 tr²)

Arwynedd Mewnol Crynswth = 63.2 m² (680 tr²)

**Fel Dwy Uned (Amodol ar gytundeb)**

Arwynebedd Crynswth Gwerthiant Siop = tua 23.0 m² (247.6tr²)

Wyneb/Lled Siop - tua 4.0m (13.12 tr.)

## Rhent Canllaw

Gwahoddir cynigion ar y sail ddilynol:

**Fel Un Uned**: mwy na £9,500 y flwyddyn (tua £800 y mis calendr

**Fel Dwy Uned:** mwy na £6,000 y flwyddyn yr uned (tua £500 y mis calendr).

## Daliadaeth

Mae'r siop ar gael i'w gosod ar sail contract ac ar delerau i'w cytuno. Y tenant(iaid) fydd yn gyfrifol am waith trwsio mewnol a blaen y siop. Mae costau tenantiaid yn cynnwys: rhent, trethi busnes, yswiriant a thâl gwasanaeth (yn cynnwys cyfleustodau).

## Gwasanaethau

Mae'r uned yn manteisio o ddŵr a thrydan. Caiff defnydd ei rannu yn ôl arwynebedd llawr fel cyfran o'r holl adeilad. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i osod mesuryddion a chodi tâl am yr union ddefnydd.

## Trethi

I'w gadarnhau.

## EPC

C – 69 (Ar gael ar gais)

## Costau Cyfreithiol

Bydd pob parti yn talu eu costau cyfreithiol eu hunain

## Cynllunio

A1 Defnydd Manwerthu - ystyrir defnydd arall (amodol ar ganiatâd cynllunio). Fodd bynnag, dylid nodi y ffafrir defnydd manwerthu a/neu gaffe. **Dylid nodi na ystyrir siop tecawe bwyd poeth.**

## Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen cyflenwi a gosod arwyddion priodol ar gost y tenant(iaid) a bydd angen i Gyngor Sir Fynwy gymeradwyo'r dyluniad.

## Gwneud Bid

Mae'r uned(au) ar gael drwy dendr anffurfiol, gyda **bidiau gorau wedi eu cyflwyno erbyn: 17:00 dydd Iau 29 Mehefin 2017**. Mae'n rhaid selio pob bid, a'u nodi'n glir **"Tendr Uned 1 Tŷ Hanbury"** ac o fewn amlen rhwydd ei hadnabod.

Rhaid gwneud cynigion yn defnyddio'r ffurflen briodol a'u postio neu eu delifro gyda llaw i'r Tîm Stadau, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA.

**Dylai pawb sy'n tendro gyfeirio at y Cyfarwyddiadau Tendr a gynhwysir yn y Pecyn Gosodiadau.**

## Cyfleoedd Gweld a Phecynnau Tendr


Cysylltwch â'r Tîm Stadau ar:


Ffôn: 01633 644417

E-bost: estates@monmouthshire.gov.uk

Neu medrir casglu pecynnau o Hyb Cas-gwent ym Maes Parcio Stryd Gymreig neu ar wefan Cyngor Sir Fynwy: www.monmouthshire.gov.uk

**Ar gyfer Cyfleoedd Gweld neu Becynnau Tendr cysylltwch â Stadau Cyngor Sir Fynwy ar: 01633 644417**



**Energy Performance Certificate**
Non-Domestic Building

HM Government

Hanbury House
Welsh Street
CHEPSTOW
NP16 5LL

**Certificate Reference Number:**
0780-9953-0386-2990-8050

This certificate shows the energy rating of this building. It indicates the energy efficiency of the building fabric and the heating, ventilation, cooling and lighting systems. The rating is compared to two benchmarks for this type of building: one appropriate for new buildings and one appropriate for existing buildings. There is more advice on how to interpret this information on the Government's website www.communities.gov.uk/epbd.

**Energy Performance Asset Rating**

More energy efficient

A+

Net zero $CO_2$ emissions

- A 0-25
- B 26-50
- C 51-75
- D 76-100
- E 101-125
- F 126-150
- G Over 150

Less energy efficient

69 This is how energy efficient the building is.

**Technical Information**

Main heating fuel: Natural Gas
Building environment: Heating and Natural Ventilation
Total useful floor area ($m^2$): 678
Building complexity (NOS level): 3
Building emission rate ($kgCO_2/m^2$): 64.12

**Benchmarks**

Buildings similar to this one could have ratings as follows:

20 If newly built
66 If typical of the existing stock

**Green Deal Information**

The Green Deal will be available from later this year. To find out more about how the Green Deal can make your property cheaper to run, please call 0300 123 1234.



**AMODOL AR GONTRACT** - **Dyddiad Cynhyrchu: 01 Mehefin 2017**

Mae Cyngor Sir Fynwy yn hysbysu:

1. Y caiff y manylion hyn eu gosod fel amlinelliad cyffredinol yn unig ar gyfer arweiniad darpar brynwyr neu ddeiliaid les ac nad ydynt yn ffurfio nac yn ffurfio rhan o gynnig neu gontract.
2. Caiff pob disgrifiad, cyfeiriad at amodau a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannu a'r holl fanylion eeraill eu rhoi yn ddidwyll a chredir eu bod yn gywir ond ni ddylai unrhyw ddarpar brynwyr ddibynnu arnynt naill ail fel datganiadau neu gynrychiolaeth ffeithiau ond mae'n rhaid iddynt fodloni eu hunain drwy archwilio neu fel arall os ydynt yn gywir ai peidio.
3. Nid oes gan unrhyw berson a gyflogir gan Gyngor Sir Fynwy unrhyw awdurdod i wneud neu roi unrhyw gynrychiolaeth neu warant o gwbl yng nghyswllt yr eiddo yma.
4. Mae'r holl ohebiaeth am y cynnig ytma yn **amodol ar gontract.**
5. Os bydd anghysondeb rhwng y Manylion hyn a'r Amodau Gwerthiant, yr Amodau Gwerthiant fydd drechaf.

monmouthshire
sir fynwy